

Rydym ni yn Ben Nevis ac mi fyddwn ni'n dringo'r mynydd.
Mae gallu dweud ein bod wedi dringo Ben Nevis, mae hynny'n rhywbeth **dwi'n** llythrennol eisiau gallu ei ddweud.

Mae gallu dweud ein bod wedi dringo Ben Nevis, mae hynny'n rhywbeth **dwi'n** llythrennol eisiau gallu ei ddweud.

Ben Nevis yw'r mynydd uchaf ar Ynysoedd Prydain. Rydw i yma gyda Phartneriaeth Ben Nevis sy'n gweithio i wella a diogelu'r dirwedd odidog hon. Mae'n sefydliad sydd wedi derbyn un pwynt naw miliwn mewn arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol.

Heddiw, rydym yn gofalu am grŵp o ddeg o bobl ifanc o Glasgow sy'n hynod frwdfrydig i ddringo at gopa Ben Nevis. Maen nhw'n mynd i gael amser gwych, yn enwedig ar ein llwybr newydd sydd wedi cael ei ailddatblygu'n llwyr dros y pum mlynedd diwethaf.

Rydw i am ddringo Ben Nevis sy'n un o 25 antur mewn canllaw newydd i ddathlu 25 mlynedd y Loteri Genedlaethol, a dwi'n mynd gyda chi fel criw.

[Grŵp] Ie Mae pobl ifanc o brosiect yn Glasgow yn mynd i ymdrechu i gyrraedd y copa. Gawn ni fynd amdani!

I bobl ifanc yn benodol, mae'n rhaid i ni annog pobl i fynd allan i fwynhau'r dirwedd, gan roi profiad o ansawdd gwirioneddol uchel iddynt o fewn natur a chyda'r buddsoddiad hwn gan y Loteri Genedlaethol, gallwn wneud hynny yn *Glen Nevis*.

Rwy'n meddwl mai'r rhan anoddaf fydd jyst gwthio ein hunain ymlaen, dyfalbarhau a mynd yn ein blaenau. Mae'n wlyb ac yn wyntog iawn.

Dim ond criw o dywyswyr gwirfoddol ydym ni. Rydym ni eisiau ceisio helpu i wella a chynnal a chadw'r lle, a helpu i reoli effaith yr ymwelwyr hyn.

Rydym wedi cyrraedd y man hanner ffordd ac mae'n deg dweud fod y tywydd yn eithafol. Mae'n wlyb, mae'n wyntog ac mae'n wyllt ond dyma beth mae antur yn ei olygu. Mae rhai o'r criw wedi gwneud gymaint o argraff arna i, mae pawb yn gwthio ymlaen.

Mae'n ymddangos fel ei fod yn mynd yn wirioneddol dda, rwy'n meddwl. Mae'r plant wir wrth eu boddau ac yn cymryd popeth fel y daw.

Mae'n hi mor anhygoel o oer. Mae'n mynd yn oce. Mae'n anodd iawn, rydw i'n edrych ymlaen at gyrraedd nôl a chael siocled poeth neu rywbeth.

Rydw i wirioneddol yn edrych ymlaen at gyrraedd y copa.

'Rydw i wedi dysgu, os ydych yn gweithio fel tîm, gallwch wthio eich hunan i wneud yn well na'r hyn yr oeddech yn ei feddwl mewn gwirionedd. Tua hanner ffordd trwy'r daith, roedden ni gyd yn teimlo fel rhoi'r ffidl yn y to ond fe ddalïon ni ati i gymell ac annog ein gilydd....
'Mae wedi bod yn ddiwrnod anodd ond ry'n ni wedi llwyddo i gyrraedd y copa. Ry'n ni'n bendant wedi creu atgofion a bydd storïau i'w hadrodd gan y criw yma. Felly diolch i'r Loteri Genedlaethol am ei wneud yn bosibl.

Wedi'ch ysbrydoli i fynd i'r awyr agored? Cymerwch olwg ar

Canllaw'r Loteri Genedlaethol i 25 Anturiaethau Anhygoel Yn Yr Awyr Agored